

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 14

Key language

Am + pronouns
Future short forms 'Gwneud'
Hwn/hon/hwnna/honna
Y llall/y lleill

New words

llai	less
mwyr	more
cydymdeimlo	to sympathize
anodd	difficult
caredig	kind
gwella	improving
byth	never
difeddwl	thoughtless
breichiau	arms
gwahaniaeth	difference
gwarthus	disgraceful
cyflymach	quicker
ar hyn o bryd	at the moment

Main Grammatical Points

Am

'Am' - meaning 'for' or 'about' is another preposition which changes when used with a pronoun.

Here's the pattern in full:

Amdana i
Amdanat ti
Amdano fe/fo
Amdani hi
Amdanon ni
Amdanoch chi
Amdanyn nhw

Note some important verbs are followed by 'am'

Siarad am	to talk about
Meddwl am	to think about
Aros am	to wait for
Gofyn am	to ask for
Gwna i	I'll make or I'll do
Gwnei di	You'll make or You'll do
Gwnaiff e/hi (SW)	He or She'll make or He or She'll do
Gwneith o/hi (NW)	He or She'll make or He or She'll do
Gwnawn ni	We'll make or We'll do
Gwnewch chi	You'll make or You'll do
Gwnân nhw	They'll make or They'll do

Hwn/Hon/hwnna/honna
Y llall/Y lleill

Wendy uses the form 'hon' and 'honna'

Hon means 'this one' and refers to a feminine noun. Siwmpwr is feminine so when Wendy refers to it as 'this one' she uses 'hon'. 'Honna' means 'that one' and also refers to a feminine noun.

In the same way 'hwn' and 'hwnna' refer to masculine nouns

Note also the use of 'y llall' - the other one

The plural form is 'y lleill' - the other ones or the rest

Useful words and expressions:

Mewn da bryd	in good time
Yn y pen draw	eventually
Miloedd ar filoedd	thousands and thousands
Hyd yn oed	even
Alla i ddim dioddef hyn	I can't stand this

Ysbyty Brynaber: Episode 40

Dic and Wendy are on their way to the airport. Agnes tells Jenny that she is very worried about Brian's condition.

Geirfa

llai	less
mwyr	more
cydymdeimlo	to sympathize
anodd	difficult
caredig	kind
gwella	improving
yn y pen draw	in the end
byth	never
difeddwl	thoughtless

Wendy - God! You're like a fart.

Dic - Wendy!

Wendy - I've never seen such an old slow coach packing a suitcase in my life...

Dic - Pe taset ti'n siarad llai a helpu mwyr efallai byddden i'n gallu pacio'r ces 'ma lot cyflymach...

Wendy - Come on, Dr Allen...Or we'll never make it to the airport on time...

Dic - Allet ti basio'r jymper yna i fi, plis?

Wendy - Hon?

Dic - Nage, honna...

Wendy - Hon? Nage'r llall, honna...ar y gwely...Hon 'te? Nage. Y llall. Honna! Yffach! Oes rhaid i fi wneud popeth fy hunan? Hon. Reit? How was I to know? Telepathy?

Dic - Dere â chusan i fi. A pryd gyrhaeddwn ni Stanstead Airport wedyn? Mewn da bryd, fel byddai fy hen athro Cymraeg i'n arfer ddweud. 'Mewn da bryd, fechgyn Cymru, mewn da bryd...'...

Wendy - Well inni fynd.

Dic - Cusan.

Wendy - Wedyn.

Dic - Nawr.

Wendy - Wedyn.

Dic - Wendy!

Wendy - Wedyn. Paid haslo fi nawr. I'm on holiday!

Wendy - Come on, man! Or we're going to miss that plane.

Golygfa 2

Agnes - Dewch i mewn...

Jenny - Rhoi'r trimmings yn y bocs i gadw wyt ti?

Agnes - Ie. Am flwyddyn arall.

Jenny - Dynnodd Arwyn a fi'n trimmings ni i lawr neithiwr. A rhoi'r goeden i'w chadw tan mis Rhagfyr...Mae gen ti lot o gardiau.

Agnes - Mwy nag arfer eleni - oherwydd beth ddigwyddodd i Brian. Cardiau Nadolig yn troi'n gardiau cydymdeimlo.

Jenny - Wrth gwrs, gawsoch chi Nadolig anodd.

Agnes - Doedd pethau ddim yn hawdd. Ond roeddet ti ac Arwyn yn garedig iawn...Dw i ddim yn lico rhoi'r cardiau yn y bin, ond does dim unman arall gyda fi i'w cadw nhw...

Jenny - Paid â theimlo'n euog. Dyna beth dw i'n wneud hefo cardiau Nadolig hefyd.

Agnes - Roedd mam wastad yn arfer eu cadw nhw. Mewn chest o' drawers lan yn yr atic. Milodd ar filodd o gardiau.

Jenny - Wir?

Agnes - Wir. Am flynyddau roeddwn i'n gwneud yr un peth. Ond does dim lle gyda ni nawr...

Jenny - Dw i newydd weld Brian ar y ward. Mae o'n gwella ychydig bob dydd.

Agnes - Ti'n meddwl wnaiff e wella'n iawn yn y pen draw?

Jenny - Ydw - Yn y pen draw.

Agnes - Dw i ddim mor siwr, dw i'n poeni weithiau na fydd e byth yn gwella.

Jenny - Rhaid iti beidio meddwl felly. Mae o'n ifanc. Mi fydd o'n iawn...Mi fydd o'n iawn, Agnes.
Wir iti. Dyna mae pawb yn ddweud.
Agnes - Ddim pawb...Alla i ddim dioddef hyn...
Jenny - Mi fydd o'n gwella!
Agnes - Dw i ddim yn lico i Rhodri a Brenda ei weld e...Dydy e ddim yn gallu cerdded yn iawn...na
siarad yn iawn...
Jenny - Wel - mae o...
Agnes - Ti'n gwbod beth alwodd rhyw ffrind i Rhodri fe...'Frankenstein...'
Jenny - Mae plant yn gallu bod yn ddifeddwl...
Agnes - Ond mae e'n wir! Dyna'r pwynt! Mae e'n wir!

Ysbyty Brynaber: Episode 41

Wendy and Dic are off on a skiing holiday.

Brian regains consciousness and asks to see Agnes.

Geirfa

unig un	only one
breichiau	arms
gwahaniaeth	difference
gwarthus	disgraceful
cyflymach	quicker
ar hyn o bryd	at the moment

Golygfa 1

Wendy - God! I am shattered!

Dic - Ddim ti yw'r unig un...Mae mreichiau i wedi cyffio hefyd...

Wendy - Cyffio? What? Like your legs are handcuffed to the seat?

Dic - Na. Cyffio as in dw i'n teimlo yn hollol stiff.

Wendy - Cyffio - isn't that the word for fighting?

Dic - Na. Ti'n meddwl am cwffio. Cwffio. North Walian for fighting. Wedi cyffio ydw i. Cyffio. Ddim cwffio. Ti'n gweld y gwahanieth?

Wendy - Sort of.

Dic - Dw i'n stiff fel procer ar ôl cysgu ar y blwmin seti yma.

Wendy - Cwffio. Fighting. As in what got Brian Rees, Sister Agnes Rees's hubby into hospital before Christmas...Cwffio.

Dic - Ie. Cwffio ydy fighting. Ond cyffio ydy stiff.

Wendy - Welsh is a really quirky language. You know that? This flight has been delayed for - let me see - we were suppose to catch the 4 o'clock yesterday afternoon and now it's four o'clock in the morning. That's twelve bloody hours we've been stuck here...

Dic - Dw i'n gwybod... Ond beth allwn ni wneud?

Wendy - Disgraceful. Neu gwarthus fel byddai Sister Rees yn ddweud...

Dic - Gwarthus iawn.

Wendy - Gwarthus uffernol.

Dic - Neu uffernol o warthus hyd yn oed.

Wendy - Dw i'n mynd i weld y flight board.

Dic - Does dim pwynt. Dw i'n gallu ei weld e o fan hyn.

Wendy - Wyt ti? Ble?

Dic - Draw fanna...Ti'n gweld...

Wendy - O, yeah...Delayed.

Dic - Coffi?

Wendy - Na. Dw i wedi yfed gormod yn barod. If I drink more it'll just start pouring out of me...

Dic - Dw i ffansi cerdded...Strestsho nghoesau...

Wendy - Fel bod nhw ddim yn cyffio!

Dic - Ie. 'Dyna ti. Fel bod nhw ddim yn cyffio. Ti'n dod?

Wendy - Na. I'll guard our luggage. You go...ond Dic.

Dic - Beth?

Wendy - Dim cwffio. O.K.?

Dic - O.K. Dim cwffio!

Golygfa 2

Agnes - Brian, cariad? Ti'n effro?

Brian - ...Ydw...pam

Agnes - Gysgaist ti'n hir? Do...? Dyna beth ti'n trio ddweud?

Brian - Dim lot...

Agnes - Mae newyddion da gyda fi. Ti'n cael dod adre ddydd Gwener... dwedodd Arwyn Saunders wrtho i ...Wnei di wella lot cyflymach gartre na fan hyn. Ddylen i ddim dweud hynny, cofia - a finnau'n Sister a phopeth. Ond mae e'n wir...

Brian - Ja...J...J...J...

Agnes - J beth?

Brian - ...Na...A.A.A.A...

Agnes - Agnes? Dyna beth ti'n trio ddweud?

Brian - J-j-j-j-...

Agnes - Ysgrifenna fe i lawr ar y darn papur yma? Dyna ti...A beiro..."Eisiau gweld Jenny ydw i."

Pam wyt ti eisiau ei gweld hi? "Achos hi yw fy noctor i, Agnes." Oes rhywbeth yn dy fecso di 'te?

Brian - J-j-j-j-j...

Agnes - Jest eisiau gweld Jenny ie?

Brian - Ia...

Agnes - O'r gore. Dw i'n credu ei bod hi lan yn Ward Enlli ar hyn o bryd...Ond ddweda i wrthi...

Brian - Diolch...

Ysbyty Brynaber: Episode 42

Jenny visits Brian. The only way that he can communicate is by writing everything down. He does not want the police to arrest Tony, for Agnes' sake and for his own sake.

Matters are pretty fraught between Wendy and Dic as they arrive at the ski resort.

Golygfa 1

Jenny - Mae'n ddrwg gen i na nes i ddim dy weld di ddoe, Brian...

Brian - Mae'n iawn....

Jenny - Ddwedodd Agnes dy fod ti eisiau fy ngweld i

Brian - Arwyn...

Jenny - Arwyn?

Brian - Ia.

Jenny - Arwyn? Pam? Beth mae fy ngwr i wedi wneud? Ti wedi sgwennu hyn i lawr yn barod?

Gad i mi weld y papur 'te...y noson ces i fy - sori - beth ydy'r gair yma?

Brian - Brifo...

Jenny - ...Brifo. Sori. Fi sydd ar fai...gan Tony...Rydw i'n gwbod pwy ydi Tony yn iawn...

Brian - Ond dydw i ddim isio i'r polis wneud dim. Rydw i wedi bod yn cael affêr hefo Linda, partner Tony ers dwy flynedd. Rydw i wedi dweud celwydd wrth y polis. Rydw i wedi dweud fy mod i ddim yn gwbod pwy ydy o. Ond bob tro rydw i'n siarad hefo dy wr di - mae o'n cwyno bod y polis ddim yn gwneud digon i ddal Tony. Dydw i ddim eisiau iddyn nhw ddal Tony. Er mwyn Agnes. Ac er fy mwyn fy hun. Wnei di plis, plis ofyn i Arwyn stopio haslo'r polis?

Jenny - Ti'n siwr mai dyma beth wyt ti eisiau, Brian?

Brian - Ydw....

Jenny - Ond mae Tony wedi gwneud niwed mawr i ti.

Brian - Does dim ots.

Jenny - O.K. Mi ga i air hefo Arwyn.

Golygfa 2

Wendy - Dic? Will you get that?

Dic - Dy siwtces di.

Wendy - Beth?

Dic - Mae porter yr hotel newydd ddanfôn dy siwtces di lan...

Wendy - At last! What took them so long?

Dic - Lwcus wnes di ddim ateb y drws fel yna...

Wendy - Nudity is a perfectly acceptable where I come from in the Valleys...It's only you West Wales Welshies who have hang-ups about it...

Dic - Beth sy? Beth sy? Beth sy'n bod?

Wendy - Oh God...I don't believe it...

Dic - Beth? Dwed!

Wendy - I stashed about £500 worth of euros in this case.

Dic - Beth?

Wendy - I didn't think...And didn't think the case would go missing at Nice airport...

Dic - Ti wedi rhoi gwerth £500 o euros yn dy siwtces ?

Wendy - Don't shout. Dw i'n teimlo'n ddigon drwg fel mae hi...

Dic - Ti off dy ben neu beth? Rhoi arian yn dy siwtces?

Wendy - Leave off!

Dic - Ti ddim yn gall!

Wendy - Digon hawdd i ti siarad...Ond pan wyt ti wedi colli dy dad - when your father's just died - dwyt ti jest ddim yn meddwl yn stret! O.K., pal?

Dic - Sori.

Wendy - Yeah, well...Too late for that...

Dic - Sori, dw i ar fai...

Wendy - Dw i'n trio bod yn jolly ha ha...The usual bubbly jokey Wendy Keating...Always the good time girl, always on for a pint and a laugh and a curry...But deep inside I'm still hurting...I just feel

so I don't know...empty...

Dic - Dere yma...

Wendy - Na! Gwrandu, Dic! Dy syniad ti oedd y gwyliau 'ma. Ddim fi. Dere i sgïo yn y French Alps, meddet ti...

Dic - Meddwl amdanat ti oeddwn i. A sut Nadolig crap ges di.

Wendy - A roedd e'n crap. Really crap. The worst ever with Dad not there...

Dic - Edrycha yma: does dim ots am yr arian...Allwn ni joio yr un fath...

Wendy - You say that. But really - I know you feel resentful towards me. You're thinking to yourself, 'What a stupid, stupid bitch.' And you'll just grow to hate me Dic...

Dic - Paid â siarad dwli...

Wendy - Well, we'll wait and see - shall we?

Synopsis

Brian has been making a slow recovery from his injuries and has been told that he can be discharged from hospital. He tells Jenny Saunders about his affair with Tony's wife and tells her that he does not want Arwyn to pressurize the police into finding Tony.

Wendy and Dic have gone on a skiing holiday to the Alps. All is not well in their relationship either.

Test yourself

1. What is the Welsh for the phrase 'in good time'?
 - a) Ar hyn o bryd
 - b) Ar y pryd
 - c) **Mewn da bryd**
2. Translate 'the other ones' into Welsh
 - a) honna
 - b) y llall
 - c) **y lleill**
3. What is the Welsh verb for 'to sympathize'?
 - a) gweddïo
 - b) **cydymdeimlo**
 - c) cyhuddo
4. What's the Welsh word for 'disgraceful'?
 - a) **gwarthus**
 - b) gwario
 - c) gwyach
5. What's the Welsh for 'eventually'?
 - a) yfory efallai
 - b) **yn y pendraw**
 - c) yn y dechrau
6. How would you translate the Welsh phrase 'I'm thinking about you'?
 - a) **Dw i'n meddwl amdanat ti**
 - b) Dw i'n gofyn amdanat ti
 - c) Dw i'n cofio amdanat ti